Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned

## Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Conwy a Sir Ddinbych

**Llandudno Road**
**Llandrillo-yn-Rhos**
**Bae Colwyn**
**LL28 4HZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Phartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Conwy a Sir Ddinbych

Mae partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned Conwy a Sir Ddinbych yn cael ei chadeirio gan Grŵp Llandrillo Menai ac mae'n cynnwys:

- Grŵp Llandrillo Menai
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Addysg Oedolion Cymru

Yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023, roedd gan y bartneriaeth 446 o ddysgwyr a gymerodd ran mewn dosbarthiadau a ariannwyd gan ddefnyddio'r Grant Dysgu Cymunedol a ddosbarthwyd i awdurdodau lleol Conwy a Sir Ddinbych gan Lywodraeth Cymru. Cyflwynwyd llawer o'r dosbarthiadau hyn gan Grŵp Llandrillo Menai a'r gweddill ohonynt gan Addysg Oedolion Cymru. Cymerodd 1,082 pellach o oedolion sy'n dysgu ran mewn dosbarthiadau a ariannwyd gan ddefnyddio cyllid addysg bellach (AB) rhan-amser Grŵp Llandrillo Menai a gafwyd yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Cymerodd 878 o ddysgwyr ychwanegol ar draws y ddwy sir ran mewn dosbarthiadau ag Addysg Oedolion Cymru gan ddefnyddio'r cyllid a gafodd yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Yn ôl data cyfrifiad diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol, poblogaeth breswyl Conwy yn 2021 oedd 114,800, a oedd yn cynrychioli 3.7% o boblogaeth Cymru. Poblogaeth Sir Ddinbych oedd 95,800, sef 3.1% o gyfanswm Cymru. Yn y ddwy sir, mae dwysedd y boblogaeth ar ei uchaf ar hyd yr arfordir, sy'n cael ei wasanaethu gan Wibffordd Gogledd Cymru yr A55, ac mae cymunedau gwledig teneuach eu poblogaeth ymhellach i ganol y tir. Cyfran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yng Nghonwy yw 36.3%, ac mae'n 41.5% yn Sir Ddinbych. Mae'r rhain yn uwch na ffigur Cymru gyfan, sef 29.2%.

Mae'r ddwy sir yn gartref i boblogaethau cymharol hen. Roedd gan awdurdod lleol Conwy y gyfran uchaf ond un o breswylwyr 65 oed neu'n hŷn yng Nghymru, sef 27.4%, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru, sef 21.3%. Y ffigur cyfatebol ar gyfer Sir Ddinbych oedd 24.8%. Roedd cyfran y preswylwyr rhwng 15 a 64 oed yn y ddau awdurdod lleol yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sy'n 62.2%, sef 57.8% yng Nghonwy a 58.9% yn Sir Ddinbych.

Roedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019 yn dangos, ar y cyfan, bod y ddwy sir ychydig yn llai difreintiedig na'r cyfartaledd ledled Cymru. Canran yr ardaloedd ym mhob sir a oedd ymhlith y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd 46.6% yn Sir Ddinbych a 40.8% yng Nghonwy. Roedd hyn yn eu rhoi ar safle 11 ac 16 yn y drefn honno ymhlith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru (lle safle 1 oedd y mwyaf difreintiedig yng Nghymru a safle 22 oedd y lleiaf difreintiedig). Fodd bynnag, roedd rhannau o'r ardaloedd â phoblogaeth fwy dwys yn y ddwy sir o fewn yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys rhannau o Abergele, Bae Colwyn a Llandudno yng Nghonwy, yn ogystal â dwy ardal yn y Rhyl yn Sir Ddinbych a oedd yr ardal fwyaf difreintiedig a'r ail ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Heb gynnwys myfyrwyr, cyfran y preswylwyr 16-64 oed a oedd yn economaidd anweithredol yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023 oedd 21.0% yng Nghonwy a 23.1% yn Sir Ddinbych. Roedd y rhain ychydig yn uwch na'r gyfradd o 19.9% ar draws Cymru gyfan. Roedd canolrif yr enillion wythnosol gros ymhlith oedolion sy'n gyflogeion amser llawn yn 2022 ar draws y ddwy sir yn is na ffigur Cymru gyfan, sef £599.70c. Ar gyfer Conwy, y canolrif oedd £550.90c ac roedd yn £543.30c yn Sir Ddinbych.

Mae canlyniadau Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth/Arolwg Gweithlu Llafur Lleol Cymru y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod cyfran y preswylwyr sydd â chymwysterau ar lefel 2 neu'n uwch, sef 84.2% yng Nghonwy ac 80.5% yn Sir Ddinbych, yn is na chyfartaledd Cymru, sef 87.4%. Yn y ddwy sir, nid oes gan gyfran uwch o oedolion na'r cyfartaledd unrhyw gymwysterau ffurfiol; 13.3% yng Nghonwy ac 13.2% yn Sir Ddinbych, o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 7.9%.

## Crynodeb

Ar draws y bartneriaeth, mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn awyddus i ddysgu, ennill medrau newydd a datblygu fel unigolion. Mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cryf tuag at eu nodau, yn gwrando’n weithredol ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a medrau i gyd-destunau newydd yn llwyddiannus. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda. Mae llawer ohonynt yn myfyrio ar eu cynnydd ac yn nodi meysydd i’w gwella, ac mae’r mwyafrif ohonynt yn mentro y tu hwnt i’r hyn sy’n gyfforddus iddynt fel rhan o’u dysgu.

Mae dysgwyr yn datblygu medrau ac ymddygiadau ehangach yn ystod eu cyrsiau. Mae’r rhain yn cynnwys ymgysylltiad cynaledig, gweithio’n annibynnol, rheoli amser a siarad yn gyhoeddus, yn ogystal â medrau cymdeithasol ehangach. Mae llawer o ddysgwyr yn ymwybodol o’r llwybrau dilyniant sydd ar agor iddynt wedi iddynt gwblhau eu cyrsiau ac mae’r mwyafrif ohonynt yn awyddus i symud ymlaen i astudiaethau pellach. Mae’r bartneriaeth yn cynnig cyngor ac arweiniad defnyddiol i ennyn diddordeb darpar ddysgwyr.

Mae tiwtoriaid yn dangos amynedd, empathi a hiwmor da, gan greu amgylcheddau cefnogol i ddysgwyr. Maent yn adolygu a thrafod gyda dysgwyr sut gellir eu cefnogi â’u hanghenion dysgu ychwanegol. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau yn chwarae rôl lawn yn eu gwersi ac yn gwneud cynnydd cryf. Mae mwyafrif y dysgwyr yn falch o sut mae eu dysgu wedi’u helpu yn eu bywydau bob dydd ac yn eu rolau yn y gwaith.

Mae’r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynllunio eu gwersi’n dda ac yn meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol â’u dysgwyr. Mae llawer ohonynt yn addasu eu gwersi’n fedrus pan fydd yn fuddiol, er enghraifft trwy archwilio pynciau sydd o ddiddordeb neu ddefnyddio adnoddau gwahanol er mwyn ymateb i gynnydd ac adborth dysgwyr. Mae’r rhan fwyaf o diwtoriaid yn rhoi esboniadau clir ac yn defnyddio adnoddau o ansawdd uchel i ennyn diddordeb eu dysgwyr yn llwyddiannus. Mae llawer o diwtoriaid yn cynnig cymorth a her briodol i ddysgwyr, gan ddefnyddio technegau holi effeithiol. Rhoddant adborth gwerthfawr sy’n amlygu cryfderau a sut gall dysgwyr wella. Mae gan fannau dysgu adnoddau da ac mae tiwtoriaid yn defnyddio technoleg ddigidol yn ddi-dor i wella eu gwersi a chefnogi ymgysylltiad dysgwyr.

Mae’r bartneriaeth yn cynnig ystod dda o ddarpariaeth sy’n cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae dau bartner cyflwyno’r bartneriaeth, sef Grŵp Llandrillo Menai ac Addysg Oedolion Cymru, yn cynllunio darpariaeth yn effeithiol ac yn gydweithredol, gan osgoi dyblygu a sicrhau bod y cwricwlwm yn cynnig arlwy eang. Fodd bynnag, nid yw’r bartneriaeth yn defnyddio ei phartneriaid ehangach ddigon i gyfrannu at y broses gynllunio na chyflwyno cyrsiau arbenigol. Nid yw’r bartneriaeth yn cynnig unrhyw ddarpariaeth gwbl Gymraeg a cheir defnydd cyfyngedig o ddulliau addysgu dwyieithog, hyd yn oed mewn gwersi lle mae nifer o siaradwyr Cymraeg yn bresennol.

Mae gan y bartneriaeth arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol. Mae aelodau staff ar bob lefel yn dangos gweledigaeth gynhwysol y bartneriaeth. Teimlant eu bod yn cael eu cefnogi’n dda gan arweinwyr a’u bod yn gallu manteisio ar adnoddau a chyfleoedd

dysgu proffesiynol gwerthfawr. Mae cynllun strategol gwerthfawr yn amlinellu cyd-destun, amcanion a chylch gorchwyl y bartneriaeth, ond nid yw’n defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol i helpu i fesur cynnydd. Mae gan y bartneriaeth gytundebau lefel gwasanaeth defnyddiol a manwl sy’n egluro rolau, cyfrifoldebau, cyllid ac arlwy’r ddarpariaeth ar draws y ddwy sir. Mae gan y bartneriaeth brosesau hunanwerthuso a gwella effeithiol sy’n tynnu gwybodaeth ynghyd gan y ddau bartner cyflwyno ac yn nodi cryfderau a thargedau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid oes gan rai targedau ddeilliannau sydd wedi’u diffinio’n glir, sy’n ei gwneud yn anodd gwerthuso effaith camau gweithredu.

## Argymhellion

A1 Cynyddu argaeledd darpariaeth ac addysgu sy'n cefnogi dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

A2 Ehangu ystod y partneriaid sy'n cyfrannu at gynllunio darpariaeth

A3 Cryfhau cynllunio strategol i gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau i werthuso effaith camau gweithredu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaethau achos ar ei waith yn ymwneud â'r:

- defnydd effeithiol o dechnoleg ddigidol i gefnogi ymgysylltiad a chynnydd ym maes dysgu oedolion yn y gymuned
- olrhain a chynllunio ar gyfer dilyniant dysgwyr dysgu oedolion yn y gymuned, i'w lledaenu ar wefan Estyn

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Ar draws y bartneriaeth, gwna llawer o ddysgwyr gynnydd cryf tuag at y nodau y maent wedi'u pennu iddyn nhw'u hunain. Mewn dosbarthiadau, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn awyddus i ddysgu. Maent yn caffael gwybodaeth newydd ac yn datblygu eu medrau'n dda.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwrando'n barchus ar eu tiwtoriaid a'u cymheiriaid; mae llawer ohonynt yn gwrando'n weithredol, gan ofyn cwestiynau perthnasol i archwilio syniadau ymhellach. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda a gall llawer ohonynt gymhwyso eu gwybodaeth a medrau'n effeithiol i gyd-destunau newydd, gan ddatblygu eu harfer wrth iddynt wneud hynny. Er enghraifft, mae dysgwyr ar gyrsiau rhagarweiniol i Iaith Arwyddion Prydain yn defnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu dros sawl gwers i sgwrsio'n gymwys â'i gilydd a disgrifio ymweliad ag atyniad lleol. Pan maent yn ansicr, mae dysgwyr yn troi at eu tiwtoriaid a'i gilydd yn gyfforddus i gael arweiniad. Er enghraifft, mae dysgwyr ar gyrsiau crefft yn esbonio i'w gilydd sut i fframio lluniau neu liwio ffabrigau.

Gwna llawer o ddysgwyr mewn dosbarthiadau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) gynnydd cryf â'u medrau Saesneg. Gallant alw ystod dda o eirfa i gof a chyfosod brawddegau strwythuredig, er enghraifft gan ddefnyddio amser y gorffennol syml a'r gorffennol perffaith. Yn yr achosion gorau, maent hefyd yn datblygu dealltwriaeth o dermau ac ymadroddion Cymraeg syml. Mae hyn yn rhoi medrau gwerthfawr iddynt sy'n eu helpu i integreiddio i'w cymunedau, cyfranogi yn y gweithlu a gwneud cynnydd yn eu gyrfaoedd.

At ei gilydd, dim ond ychydig o ddysgwyr y bartneriaeth sy'n defnyddio neu'n datblygu eu medrau Cymraeg fel rhan o'u cyrsiau oherwydd, yn rhy aml, caiff dosbarthiadau eu cynnal yn uniaith Saesneg. Yn yr achosion gorau, mae dysgwyr yn dangos diddordeb yn yr iaith, a gydag anogaeth gan eu hathrawon, yn manteisio ar wybodaeth eu cymheiriaid sy'n siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf. Er enghraifft, mae dysgwyr o wledydd eraill, wrth baratoi i ddod yn gynorthwywyr dosbarth, yn troi at un o'u cymheiriaid sy'n rhugl yn y Gymraeg i wirio a thrafod eu gwybodaeth am eiriau sylfaenol, fel lliwiau a dyddiau'r wythnos, i'w defnyddio gyda phlant ifanc.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau a nodwyd yn chwarae rhan lawn yn eu dosbarthiadau ac yn gwneud cynnydd cryf. Maent yn agored ac yn fodlon dweud wrth bobl eraill am y ffyrdd y maent yn wahanol. Gan ddefnyddio mewnwelediad dysgwr sy'n defnyddio cadair olwyn, cydweithiodd grŵp cymdeithasol yn dda â'i gilydd i ymchwilio i effeithiau anabledd ar berthnasoedd teuluol ac ymgorffori hyn yn eu cwrs.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn falch o sut mae eu dysgu wedi eu helpu yn eu bywydau beunyddiol a'u gwaith, ac yn awyddus i rannu hyn. Er enghraifft, mae dysgwyr ar gyrsiau magu hyder yn trefnu eu clwb garddio eu hunain ac yn gwirfoddoli ag elusennau a gwasanaethau gwahanol. Mae dysgwyr ar gyrsiau llythrennedd digidol sylfaenol yn esbonio sut maent wedi gallu dangos i gydweithwyr ac aelodau teulu sut i ddefnyddio swyddogaethau rheoli ffeiliau a rhannu dogfennau.

Gydag anogaeth gan eu tiwtoriaid, mae mwyafrif y dysgwyr yn mentro y tu hwnt i'r hyn sy'n gyfforddus iddynt, er enghraifft trwy siarad a chyflwyno i grwpiau neu gynllunio'n gydwybodol sut i fynd i'r afael â heriau penodol. Mae dysgwyr hŷn ar gyrsiau llythrennedd digidol nid yn unig yn datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i gyfranogi ar-lein, ond hefyd i drafod y manteision, peryglon a'r ystyriaethau moesegol posibl sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial. Mae dysgwyr ar gyrsiau Iaith Arwyddion Prydain yn cydweithio â'i gilydd yn effeithiol iawn i ddatblygu gafael sylfaenol ar yr iaith yn gyflym ac mae bron pob un ohonynt yn datblygu eu hyder wrth gyflwyno o flaen grwpiau.

Mae llawer o ddysgwyr yn myfyrio'n rheolaidd ar y cynnydd a wnânt yn eu dysgu. Maent yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a'r medrau maent yn eu caffael ac yn nodi agweddau y mae angen iddynt eu gwella yn graff. Ar draws y bartneriaeth, mae ychydig o ddysgwyr yn cael trafferth myfyrio ar eu cynnydd mewn modd ystyrlon.

Mae llawer o ddysgwyr yn ymwybodol o'r opsiynau dilyniant sydd ar gael iddynt ar ôl iddynt gwblhau eu cyrsiau. Mae'r mwayfrif ohonynt yn awyddus i symud ymlaen ac mae cofnodion y bartneriaeth ei hun yn dangos, ar ddiwedd y flwyddyn academaidd ddiwethaf, bod tua 40% wedi symud ymlaen i ymrestru ar gyrsiau eraill yn y bartneriaeth neu ar gyrsiau addysg bellach amser llawn neu ran-amser.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae dysgwyr ar draws y bartneriaeth yn datblygu medrau ac ymddygiadau gwerthfawr sy'n eu helpu yn eu gwaith a'u bywydau personol. Mae hyn yn cynnwys y gallu i gynnal eu hymgysylltiad a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, mae dysgwyr Iaith Arwyddion Prydain yn ymgolli'n llwyr mewn arwyddo ar hyd eu gwersi, gan wrthsefyll y demtasiwn i siarad â'i gilydd yn uchel. Mae dysgwyr SSIE yn ennill medrau iaith hanfodol, sy'n eu galluogi i gefnogi eu teuluoedd i integreiddio'n llawnach yn y gymuned leol, er enghraifft trwy gyfathrebu'n well â gweithwyr gwasanaethau hanfodol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cyfranogi'n frwdfrydig yn eu dysgu. Maent yn dangos lefel uchel o ddiddordeb yn eu pynciau dewisol ac yn aml yn cwblhau gwaith gartref i atgyfnerthu eu dysgu neu baratoi ar gyfer y wers nesaf. Maent yn gwrando'n ofalus ar ei gilydd ac yn rhoi sylwadau meddylgar ar gyfraniadau dysgwyr eraill. Mae dysgwyr yn cydweithio â'i gilydd yn effeithiol mewn grwpiau ac, mewn llawer o achosion, yn llunio gwaith da wrth ymateb i'r tasgau sy'n cael eu gosod. Mewn llawer o achosion, mae dysgwyr yn datblygu medrau da o ran gweithio'n annibynnol, gan ymchwilio i faterion a chyflwyno dadleuol cydlynus i ategu eu safbwyntiau.

Mae bron pob un o'r dysgwyr ar gyrsiau lles yn crybwyll newidiadau cadarnhaol i'w bywydau, diolch i'w dosbarthiadau. Er enghraifft, maent yn dysgu sut i gynllunio eu hamser i sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng gwaith a bywyd sy'n cynnwys amser i ymlacio a dewisiadau bwyta'n iach. Mae bron pob un o'r dysgwyr ar gyrsiau lles yn magu'r hyder i gymdeithasu a mynegi eu barn mewn grŵp. Maent yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau sy'n eu hannog i ehangu eu profiadau, er enghraifft trwy wirfoddoli yn y gymuned. Esboniodd un dysgwr, 'Dwi'n dysgu amdanaf i fy hun, yn ennill ymwybyddiaeth o'm cryfderau ac yn dysgu i wthio'r teimladau negyddol o'r neilltu'.

Mae presenoldeb dysgwyr yn gryf ac mae llawer o ddysgwyr yn cyrraedd dosbarthiadau'n brydlon. Mae dysgwyr yn elwa ar barodrwydd y bartneriaeth, lle bynnag y bo'n ymarferol, i ystyried ymrwymiadau gwaith a phersonol dysgwyr wrth drefnu eu gweithgareddau dysgu a'u dosbarthiadau. Mae hyn yn helpu dysgwyr i gynnal eu hymgysylltiad a gwneud cynnydd yn eu dysgu.

Mae llawer o ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol a SSIE yn crybwyll eu bod yn gwella eu cyflogadwyedd a'u medrau entrepreneuraidd, diolch i'w hastudiaethau. Er enghraifft, mae ychydig o ddysgwyr yn magu'r hyder i ddechrau gwerthu eu gwaith celf a chrefft eu hunain.

Mae ychydig iawn o ddysgwyr sy'n ei chael hi'n anodd gadael eu cartrefi yn croesawu'r cyfle i ddysgu medrau newydd a chymdeithasu â phobl eraill trwy gymryd rhan mewn dosbarthiadau mewn grwpiau bach yn agos at eu cartrefi. Fel rhan o'r rhain, caiff dysgwyr eu cefnogi i fyfyrio ar eu bywydau a'u medrau i greu cynlluniau â chamau graddedig i wneud cynnydd, er enghraifft trwy gyfarfod â phobl newydd a derbyn canmoliaeth.

Mae bron pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel ac yn sicr yn eu hamgylcheddau dysgu ac yn gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae dysgwyr yn dangos ymwybyddiaeth dda o brotocolau ar-lein; mae cyrsiau diogelwch ar-lein y bartneriaeth yn eu helpu i gadw eu hunain yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r bartneriaeth yn cynnig ystod eang a chytbwys o ddarpariaeth sy'n cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys cynorthwyo oedolion i ddatblygu eu medrau cyflogadwyedd, llythrennedd, rhifedd a digidol a galluogi pobl nad ydynt yn siaradwyr Saesneg rhugl i wella eu gafael ar yr iaith. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn cyd-fynd â nod ehangach Llywodraeth Cymru i gefnogi iechyd meddwl a lles dinasyddion. Mae cymysgedd addas o ddarpariaeth wedi'i hachredu a heb ei hachredu a rhaglen fach ond briodol o ddarpariaeth ar-lein.

Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys cyfres ddefnyddiol o gyrsiau rhagarweiniol sy'n rhoi blas i ddysgwyr ar ddysgu galwedigaethol trwy raglenni fel trin gwallt, medrau menter a hyfforddiant rhagarweiniol i ddod yn gynorthwyydd dosbarth. Mae darpariaeth SSIE werthfawr yn amrywio o gyrsiau lefel mynediad anffurfiol mewn lleoliadau cymunedol i ddysgwyr sydd â gallu cyfyngedig iawn yn y Saesneg, i gyrsiau lefel 2 achrededig ar gampysau colegau i'r rhai sydd â gafael mwy datblygedig ar yr iaith.

I gefnogi iechyd meddwl a lles dysgwyr, mae amrywiaeth o gyrsiau ar gael sy'n integreiddio agweddau ar les ochr yn ochr â datblygu medrau. Gall dysgwyr symud ymlaen i gyrsiau tebyg eraill i ehangu eu profiadau, er enghraifft cyfres Addysg Oedolion Cymru o gyrsiau ysgrifenedig creadigol a chyrsiau cysylltiedig.

Caiff darpariaeth ei chynnig mewn ystod addas o leoliadau ar draws y ddwy sir, gan gynnwys safleoedd colegau yn y Rhyl, Llandrillo-yn-Rhos ac Abergele, yn ogystal ag mewn nifer o leoliadau cymunedol llai. Mae gan bob lleoliad adnoddau da, gydag offer TGCh, ystafelloedd dosbarth a chyfleusterau sy'n addas ar gyfer oedolion sy'n dysgu. Mae'r defnydd o leoliadau cymunedol, gan gynnwys llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol pwrpasol, fel Hwb Dinbych, yn golygu bod dysgwyr yn gallu

manteisio ar wasanaethau cymunedol ehangach neu ffynonellau cyngor ac arweiniad ar y safle. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddarpariaeth ddysgu wyneb-yn-wyneb sydd ar gael yn yr ardal wledig yn bennaf yng nghanol ôl troed daearyddol y bartneriaeth.

Mae dau bartner cyflwyno'r bartneriaeth, sef Grŵp Llandrillo Menai ac Addysg Oedolion Cymru, yn cynllunio'r ddarpariaeth yn effeithiol ac yn gydweithredol, ac mae hyn yn helpu i osgoi dyblygu darpariaeth ac yn sicrhau bod y cwricwlwm yn cynnig arlwy eang. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn defnyddio ei phartneriaid ehangach ddigon i gyfrannu at y broses gynllunio neu, er enghraifft, i gyflwyno cyrsiau arbenigol.

Nid yw'r bartneriaeth yn cynnig unrhyw ddarpariaeth gwbl Gymraeg, hyd yn oed mewn cymunedau lle mae cyfran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Bu hyrwyddo dulliau addysgu dwyieithog yn ffocws i ddysgu proffesiynol y bartneriaeth ond, hyd yn oed mewn dosbarthiadau lle mae siaradwyr Cymraeg yn bresennol, mae'r defnydd o ddulliau addysgu dwyieithog yn gyfyngedig.

Mae'r bartneriaeth wedi cynllunio sut mae'n defnyddio cyllid Lluosi llywodraeth y DU i gefnogi medrau rhifedd dinasyddion yn dda. Caiff y cyllid ei ddefnyddio i ymgysylltu'n hyblyg â dysgwyr newydd ar lefel ragarweiniol, yn ogystal â chefnogi eraill i ennill cymwysterau lefel 2 gwerthfawr, fel TGAU mathemateg.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynllunio'u sesiynau'n dda, gan ystyried mannau cychwyn dysgwyr a'r cynnydd y maent yn ei wneud. Maent yn cynllunio gweithgareddau sy'n datblygu dealltwriaeth, gwybodaeth, medrau a chymwyseddau eu dysgwyr yn effeithiol, yn unol â nodau'r cwrs a nodau tymor byr a thymor hir y dysgwyr eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio ar gyfer anghenion unigol. Er enghraifft, mae tiwtor mathemateg cyn-TGAU yn paratoi gweithgareddau dysgu unigol ar gyfer pob dysgwr ar sail eu proffiliau medrau a'u dewisiadau dysgu. Mae llawer o diwtoriaid yn rhannu tasgau ac amcanion yn 'ddarnau' hylaw, cysurol er mwyn bodloni anghenion eu dysgwyr.

Mae llawer o diwtoriaid yn ymatebol ac yn addasu eu dosbarthiadau, pan fydd yn fuddiol. Er enghraifft, mynegodd dysgwyr llythrennedd digidol chwilfrydedd am ddeallusrwydd artiffisial ac addasodd eu tiwtor, gan gefnogi'r grŵp i archwilio'r pwnc yn fanylach dros sawl gwers ac ennill uned cymhwyster achrededig perthnasol, hyd yn oed.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn rhoi esboniadau a chyfarwyddiadau clir ac mae llawer ohonynt yn modelu'r medrau y mae dysgwyr yn gweithio i'w datblygu yn ddefnyddiol. Er enghraifft, mae tiwtor Iaith Arwyddion Prydain yn arddangos ac yn disgrifio arwyddion newydd, arwyddion talfyredig, amrywiadau rhanbarthol a sut gall siaradwyr Cymraeg ddefnyddio iaith arwyddion, fel bod dysgwyr yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn yr ystafell ddosbarth ac yn y gymuned. Fodd bynnag, ar draws y bartneriaeth yn gyffredinol, ychydig iawn o diwtoriaid sy'n defnyddio gweithgareddau i helpu dysgwyr i ddatblygu eu medrau Cymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio adnoddau pwrpasol o ansawdd uchel sy'n ennyn diddordeb eu dysgwyr ac yn eu hysgogi. Mae llawer o diwtoriaid yn darparu adnoddau sy'n cefnogi dysgwyr i weithio'n annibynnol. Er enghraifft, mae tiwtoriaid

TG a llythrennedd digidol yn llunio llyfrynnau clir ar gyfer pob cwrs y mae dysgwyr yn eu defnyddio i atgrynhoi ac i ddal o fyny os byddant yn colli unrhyw ddosbarthiadau.

Mae’r rhan fwyaf o diwtoriaid wedi meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol â’u dysgwyr a rhyngddynt. Maent yn deall anghenion, hoffterau, cryfderau a meysydd datblygu eu dysgwyr. Mae’r rhan fwyaf o diwtoriaid yn dangos amynedd, empathi a hiwmor da ac, o ganlyniad, maent wedi creu amgylcheddau cefnogol i ddysgwyr ymarfer medrau newydd, yn ogystal â gofyn ac ateb cwestiynau. Er enghraifft, mewn dosbarthiadau SSIE, mae dysgwyr yn siarad yn agored am enghreifftiau go iawn o’u bywydau eu hunain i ategu senarios damcaniaethol yn eu gwerslyfrau. Mae hyn yn golygu bod dysgwyr yn defnyddio Saesneg i fynegi a rhannu eu profiadau eu hunain, yn ogystal ag ymarfer y ramadeg a’r eirfa a gynlluniwyd ar gyfer y sesiwn.

Mae llawer o diwtoriaid yn defnyddio technoleg ddigidol yn ddi-dor i gyfoethogi eu haddysgu, gan ddefnyddio sgriniau arddangos clir mawr ac adnoddau digidol eraill sydd ar gael iddynt yn y canolfannau sydd â chyfarpar da. Mewn dosbarthiadau celf, mae’r tiwtor yn defnyddio camera delweddu byw i arddangos technegau paentio dyfrlliw yn glir i’r grŵp. Yn yr ychydig o achosion lle nad yw dysgwyr yn gallu mynychu dosbarthiadau’n bersonol, mae tiwtoriaid yn rheoli dull cyflwyno hybrid yn dda, gan sicrhau bod pob un o’r dysgwyr yn cymryd rhan, gyda rhai ohonynt yn bresennol yn yr ystafell ac eraill yn ymuno ar-lein.

Mae’r rhan fwyaf o diwtoriaid sy’n arwain dosbarthiadau ar-lein yn sicrhau bod dysgwyr yn cael profiadau dysgu effeithiol sydd wedi’u teilwra’n dda i’w hanghenion. Mae tiwtor rhifedd sy’n cyflwyno ar-lein i grŵp o ddysgwyr bregus yn paratoi ac yn cyflwyno dysgu personol ar gyfer pob unigolyn. Gwna’r rhan fwyaf o diwtoriaid ddefnydd da o ystod o strategaethau i gynnal rhediad addysgu a dysgu ar-lein. Er enghraifft, mewn sesiwn Iaith Arwyddion Prydain ar-lein, mae’r tiwtor yn defnyddio ystafelloedd trafod yn bwrpasol nid yn unig i alluogi dysgwyr i ymarfer arwyddion newydd, ond hefyd i’w galluogi i ffurfio perthnasoedd gwaith cryf a chreu cydlyniant yn y grŵp.

Mae llawer o diwtoriaid yn darparu cymorth a her briodol i ddysgwyr unigol wrth gylchu rhwng dysgwyr wrth iddynt weithio’n annibynnol neu mewn grwpiau. Mae’r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio technegau holi effeithiol ac, yn yr achosion gorau, mae tiwtoriaid yn herio dysgwyr i egluro eu meddylfryd, er enghraifft wrth gyfiawnhau’r dewis o bastelau fel sylfaen mewn dosbarth paentio dyfrlliw. Mewn rhai achosion, mae tiwtoriaid yn defnyddio dulliau holi llai effeithiol ac yn dibynnu’n ormodol ar gwestiynau arweiniol neu gaeedig.

Mae’r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynnig cymorth ac arweiniad gwerthfawr trwy adborth llafar yn ystod sesiynau, gan nodi’r cryfderau a’r gwendidau yng ngwaith dysgwyr. Mae llawer o diwtoriaid yn rhoi adborth ysgrifenedig sy’n amlygu cryfderau yn ogystal â nodi meysydd penodol lle gall dysgwyr wella. Mae llawer o diwtoriaid yn annog dysgwyr i nodi gwallau ei gilydd yn barchus ac i gydweithio â’i gilydd i’w cywiro, gan helpu ei gilydd i wella.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae’r bartneriaeth yn cynnig arweiniad a chymorth diduedd priodol i unigolion sydd eisiau ymrestru ar gyrsiau i hybu eu dysgu. Mae’n ymgysylltu â darpar ddysgwyr yn

effeithiol gan ddefnyddio ystod o ddulliau, fel hysbysebu ar gyfryngau cymdeithasol, ar lafar, taflenni, prosbectysau partneriaid unigol a chyrsiau blasu. Mae gan y ddau bartner cyflwyno wefannau sy'n galluogi darpar ddysgwyr i chwilio am gyrsiau sydd ar gael yn eu hardaloedd. Mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid wybodaeth dda am ddyheadau dysgwyr ac maent yn cynnig cyngor defnyddiol trwy eu cyfeirio at gyrsiau eraill y gallant eu defnyddio i ddatblygu eu dysgu.

Mae gwefan y bartneriaeth, https://communitycourses.wales, yn darparu un dudalen lanio i ddarpar ddysgwyr gael mwy o wybodaeth am y bartneriaeth a'r cyrsiau sydd ar gael. Ar hyn o bryd, mae'r wefan yn y camau cynnar o gael ei datblygu ac ychydig iawn o gynnwys sydd yno, ond mae'n cysylltu â phrif wefannau'r ddau bartner cyflwyno, lle gall darpar ddysgwyr ddod o hyd i fwy o fanylion a gwneud cais ar-lein. Mae'r bartneriaeth yn datblygu methodoleg i ddadansoddi dilyniant dysgwyr dros sawl blwyddyn o ddysgu. Mae dadansoddiad cynnar yn dangos bod tua thraean o ddysgwyr y bartneriaeth wedi dilyn cyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned yn y gorffennol, gyda dau o bob tri o ddysgwyr yn newydd i ddarpariaeth y bartneriaeth.

Mae'r bartneriaeth yn darparu'n dda ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu hatgyfeirio i gyrsiau iechyd a lles gan ymarferwyr meddygol. Maent wedi cydnabod gwerth addysg o ran gwella iechyd a gwytnwch fel dewis amgen i driniaethau eraill neu i gyd-fynd â nhw. Mae dysgwyr sy'n ymrestru am y rhesymau hyn yn crybwyll manteision canfyddadwy, cadarnhaol i'w hiechyd meddwl ac maent yn magu hyder. Mae gweithgareddau ychwanegol, fel teithiau i weld gwirfoddoli ar waith, yn nodwedd gref ac yn cyfoethogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae dysgwyr wedi magu hyder i gymryd rhan mewn gweithgareddau newydd a'u harwain hyd yn oed, fel dechrau clwb garddio, trefnu clwb cinio a manteisio ar gyfleoedd i wirfoddoli. Mae dysgwyr ar gyrsiau llythrennedd digidol yn sôn am y ffordd fuddiol y mae'r medrau y maent yn eu datblygu yn eu galluogi i oresgyn rhwystrau. Gallant gyfathrebu'n haws ac yn amlach â'u ffrindiau a theulu a chyflawni tasgau bob dydd, fel talu biliau ac archebu siopa bwyd ar-lein, creu posteri neu recordio cyfarfodydd ar gyfer grwpiau cymdeithasol y maent yn perthyn iddynt. Wrth ddatblygu'r medrau hyn, dywedodd un dysgwr eu bod yn teimlo eu bod wedi 'ailymuno â'r byd'.

Mae tiwtoriaid yn ofalus i gynllunio sesiynau sy'n galluogi dysgwyr o gefndiroedd amrywiol i rannu eu safbwyntiau a'u profiadau mewn amgylchedd parchus a diogel. Esboniodd un dysgwr pa mor ddefnyddiol oedd dod ar draws amrywiaeth o safbwyntiau a dywedodd fod 'y dosbarthiadau hyn yn agor eich meddwl'.

Mae gan bob partner bolisïau a gweithdrefnau sy'n canolbwyntio ar gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae tiwtoriaid yn adolygu a thrafod â phob dysgwr sut y gallant gael cymorth ag unrhyw ADY y maent wedi'i ddatgan ar eu ffurflen ymrestru. Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn adnabod eu dysgwyr yn dda a, lle maent yn sylwi y gallai fod gan ddysgwyr angen dysgu heb ei nodi, maent yn cynnig addasiadau addas i'w cwrs neu eu deunyddiau dysgu. Ar adegau, os oes angen cymorth mwy arbenigol ar ddysgwr, mae'r bartneriaeth yn cydweithio'n dda â sefydliadau eraill i fodloni anghenion y dysgwr. Fodd bynnag, ar gyfer ychydig iawn o ddysgwyr, mae'r broses o adolygu a mynd i'r afael â'u hanghenion cymorth yn rhy araf ac mae hyn yn amharu ar eu cynnydd.

Cyn i gyrsiau ddechrau, mae'r bartneriaeth yn rhoi llawlyfrau ymsefydlu defnyddiol i ddysgwyr sy'n rhoi gwybodaeth glir am eu cyfrifoldebau fel dysgwyr a'r ymddygiad a

disgwylir ganddynt. Caiff dysgwyr gyngor ar iechyd a diogelwch a sut i gadw'n ddiogel ar-lein, yn ogystal â beth i'w wneud a phwy y dylent gysylltu â nhw os byddant yn profi neu'n gweld unrhyw aflonyddu, bwlio, masnachu mewn pobl neu radicaleiddio. I gefnogi dysgwyr a staff, mae gan y bartneriaeth gyfres o bolisïau priodol ar waith. Mae'n defnyddio gweithdrefnau recriwtio diogel wrth benodi staff ac mae'n cynnig hyfforddiant addas i diwtoriaid yn yr agweddau gwahanol ar ddiogelu.

Mae trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Conwy a Sir Ddinbych yn gydweithrediad effeithiol rhwng y ddau awdurdod lleol a'u dau bartner cyflwyno, sef Grŵp Llandrillo Menai ac Addysg Oedolion Cymru. Mae gan y bartneriaeth strwythurau arwain a rheoli effeithiol, gan gynnwys grwpiau gweithredu a chraffu, sy'n llywio ei gwaith. Mae'r bartneriaeth yn defnyddio seilwaith presennol y partner cyflwyno arweiniol, sef Grŵp Llandrillo Menai, ac Addysg Oedolion Cymru, yn ddefnyddiol. Er enghraifft, mae hyn yn eu galluogi i gynnal dadansoddiadau data a hunanwerthuso, ac i ddarparu dysgu proffesiynol i staff.

Mae gan y bartneriaeth gynllun strategol gwerthfawr sy'n nodi'r cyd-destun ar gyfer gwaith y bartneriaeth, ei hamcanion strategol allweddol a'r cylch gorchwyl ar gyfer ei grwpiau arweinyddiaeth. Fodd bynnag, nid oes gan y cynllun unrhyw ddangosyddion perfformiad allweddol y gall y bartneriaeth eu defnyddio i fesur ei pherfformiad yn erbyn ei hamcanion strategol a gwerthuso eu heffaith.

Mae cytundebau lefel gwasanaeth defnyddiol a manwl yn nodi natur y berthynas rhwng yr awdurdodau lleol, Grŵp Llandrillo Menai ac Addysg Oedolion Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau pob parti, y trefniadau ariannu ac arlwy'r ddarpariaeth yn glir. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu at waith partneriaeth cryf ac yn golygu bod llwybrau dilyniant defnyddiol ar gael i ddysgwyr symud i ddysgu rhagarweiniol yn y gymuned i raglenni addysg bellach, os ydynt yn dymuno.

Mae arweinwyr, rheolwyr a thiwtoriaid ar bob lefel ar draws y ddarpariaeth yn dangos gweledigaeth gynhwysol y bartneriaeth yn eu gwaith. Ar y cyfan, mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu rheolwyr a bod ganddynt fynediad digonol at adnoddau a chyfleoedd dysgu proffesiynol.

Mae gan y bartneriaeth broses hunanwerthuso effeithiol sy'n dwyn ystod o wybodaeth a data ynghyd gan y ddau bartner cyflwyno mewn un adroddiad hunanwerthuso a chynllun datblygu ansawdd. Mae gan bartneriaid eu cylchoedd ansawdd unigol eu hunain ar waith, gan gynnwys rhaglen o arsylwadau a theithiau dysgu, gweithgareddau llais y dysgwr a monitor presenoldeb dysgwyr. Maent yn integreiddio trefniadau sicrhau ansawdd allanol yn llwyddiannus fel rhan o'r cylchoedd hyn.

Mae grŵp craffu'r bartneriaeth yn goruchwylio'r broses hunanasesu ac mae'n gyfrifol am fonitro'r ystod lawn o dargedau'r bartneriaeth. Mae ganddo gadeirydd annibynnol sy'n ychwanegu trylwyredd a her i brosesau cynllunio a monitro perfformiad, er

enghraifft trwy gwestiynau effeithiolrwydd a chysondeb gosod targedau ar draws y bartneriaeth.

Mae’r cynllun datblygu ansawdd yn werthusol ac yn nodi cryfderau a thargedau lefel uchel ar gyfer gwelliant, gyda thair adeg adolygu bob blwyddyn academaidd. Mae’r targedau a’r camau gweithredu cysylltiedig yn ddefnyddiol a’u nod yw gwella darpariaeth a deilliannau’r bartneriaeth ar gyfer dysgwyr. Mae targedau’n cynnwys cynyddu cyflwyno’n ddwyieithog, olrhain cynnydd dysgwyr ag ADY yn ystod y flwyddyn, datblygu cyfleoedd dilyniant i ddysgwyr a rhannu data rhwng partneriaid. Fodd bynnag, nid oes gan rai targedau yn y cynllun datblygu ansawdd ddeilliannau sydd wedi’u diffinio’n glir ac, o ganlyniad, mae’n anodd gwerthuso effaith y camau gweithredu cysylltiedig.

Mae’r ddau bartner cyflwyno yn cynnig rhaglenni dysgu proffesiynol priodol, sy’n ymateb yn dda i anghenion hyfforddi sy’n cael eu nodi trwy ystod o ddulliau gan gynnwys arsylwadau ac adborth staff. Caiff adroddiadau arsylwi eu safoni ac maent yn cynorthwyo i rannu arfer orau a meysydd allweddol i’w datblygu ar gyfer y bartneriaeth gyfan yn ddefnyddiol. Mae gan bartneriaid eu hamseroedd dynodedig eu hunain yn ystod y flwyddyn academaidd ar gyfer gweithgareddau dysgu proffesiynol sy’n darparu cyfleoedd gwerthfawr i diwtoriaid fanteisio ar hyfforddiant wedi’i deilwra sy’n canolbwyntio ar themâu fel gwahaniaethu a deallusrwydd artiffisial.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i ddysgwyr a’r holiadur i staff

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â chadeirydd y bartneriaeth, llywodraethwyr (lle bo’n briodol), uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol, i werthuso effaith gwaith y bartneriaeth
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, a gwrando ar eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau
- yn arsylwi dysgwyr y tu allan i sesiynau, ac yn siarad â nhw
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r bartneriaeth
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y bartneriaeth ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r bartneriaeth wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau’r bartneriaeth, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol (lle bo’n briodol), gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  11/09/2024